

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 16 Mehefin 2017

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: POLISI**

**Teitl:** Ailbennu ffocws Cynllun Gwên, y rhaglen i wella iechyd y geg ymhlith plant

**Dyddiad dod i ben / Adolygu**  
Mehefin 2020

**I'w weithredu gan:**  
Prif Weithredwyr, Byrddau Iechyd Lleol

**Angen gweithredu erbyn:**  
Ar unwaith – fel a nodir o dudalen 2 ymlaen

**Anfonir gan:**  
Grant Duncan, Pennaeth yr Is-adran Gofal Sylfaenol  
Colette Bridgman, Prif Swyddog Deintyddol

**Enw(au) Cyswilt yng Ngrŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:**  
Lisa Howells, Dirprwy Brif Swyddog Deintyddol, Y Gyfarwyddiaeth Polisi Iechyd  
[lisa.howells4@wales.gsi.gov.uk](mailto:lisa.howells4@wales.gsi.gov.uk)  
0300 025 1482

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Dim

## **RHESTR DDOSBARTHU**

### **Ysgrifenyddion y Byrddau**

PABM

Aneurin Bevan

Betsi Cadwaladr

Caerdydd a'r Fro

Cwm Taf

Hywel Dda

Powys

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ymddiriedolaeth Felindre

Ymddiriedolaeth Gwasanaethau

Ambiwlans Cymru

Ysgrifennydd Grŵp Ysgrifenyddol y

Bwrdd

### **Prif Weithredwyr**

PABM

Aneurin Bevan

Betsi Cadwaladr

Caerdydd a'r Fro

Cwm Taf

Hywel Dda

Powys

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ymddiriedolaeth Felindre

Ymddiriedolaeth Gwasanaethau

Ambiwlans Cymru

### **Cadeiryddion**

PABM

Aneurin Bevan

[mailto:david.jenkins6@wales.nhs.](mailto:david.jenkins6@wales.nhs.uk)

[uk](#)

Betsi Cadwaladr

Caerdydd a'r Fro

Cwm Taf

Hywel Dda

Powys

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ymddiriedolaeth Felindre

Ymddiriedolaeth Gwasanaethau

Ambiwlans Cymru

### **Llywodraeth Cymru**

Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr

GIG Cymru

Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru

Tîm Gweithrediadau AIGC

Tîm Cyfathrebu AIGC

Cyfarwyddwyr Perthnasol

### **Deintyddol**

Cyfarwyddwyr Clinigol Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol

Ymgynghorwyr Iechyd Deintyddol Cyhoeddus Iechyd Cyhoeddus Cymru

## **Ailbennu ffocws Cynllun Gwên, y rhaglen i wella iechyd y geg ymhlith plant**

### **Crynodeb**

Rhaglen genedlaethol wedi'i thargedu sydd wedi'i bwriadu i wella iechyd deintyddol plant bach yng Nghymru yw Cynllun Gwên. Mae'r rhifyn hwn o Gylchlythyr Iechyd Cymru yn disgrifio'r gwaith seiliedig-ar-dystiolaeth i ailbennu ffocws Cynllun Gwên er mwyn adeiladau ar lwyddiannau'r rhaglen genedlaethol hon ac er mwyn sicrhau cynnydd a gwelliant parhaus yn y dyfodol.

Mae'n disodli Cylchlythyr Iechyd Cymru (2008)008 a gyflwynodd Cynllun Gwên fel dau "gynllun peilot mawr", a'r Llythyr Gweinidogol dilynol (EH/ML/032/09) a oedd yn adeiladu ar y rhaglen gychwynol ac yn sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflawni ledled Cymru.

Mae Cynllun Gwên yn cael effaith wirioneddol ar iechyd deintyddol plant bach yng Nghymru ac rydym yn gweld lefelau gostyngol o bydredd dannedd. Mae Ymgynghorydd Iechyd Deintyddol Cyhoeddus yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Arbenigwr yn Iechyd y Cyhoedd yn cydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i roi cymorth i gyflawni'r rhaglen. Ceir tystiolaeth gynyddol y bydd plant sydd heb bydredd dannedd erbyn eu bod yn 5 oed yn profi llawer llai o bydredd dannedd trwy gydol eu hoes na phlant sydd â phydredd dannedd cyn eu bod yn 5 oed.

Mae pydredd dannedd ymhlith plant bach yn rhywbeth y gellir ei atal i raddau helaeth, ond mae'r clefyd hwn yn dal i effeithio ar lawer o blant yng Nghymru. Gellir atal pydredd dannedd yn bennaf trwy'r canlynol:

- Brwsio dannedd yn y nos gyda phast dannedd fflworid teulu (1450ppm o fflworid) ac ar o leiaf un adeg arall yn ystod y dydd;
- Bwyta bwydydd siwgraidd ac yfed diodydd siwgraidd yn ystod prydau bwyd yn unig, a lleihau cymeriant siwgr ar y cyfan;
- Pob plentyn yn cael mynediad at ofal deintyddol erbyn eu bod yn 1 oed;
- Mynd i bractis deintyddol yn rheolaidd lle gall y tîm deintyddol roi gofal a chynghor ataliol.

Rhaglen sy'n targedu grŵp penodol yn y boblogaeth i leihau pydredd dannedd ymhlith plant bach yw Cynllun Gwên. Caiff cefndir Cynllun Gwên ei ddisgrifio yn yr Atodiad ar dudalen 12.

[Atal pydredd dannedd ymhlith plant yw nod trosfwaol Cynllun Gwên.](#)

### **Camau gweithredu sy'n ofynnol**

Gofynnir i Fyrddau Iechyd a'u Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol ddilyn y camau gweithredu gofynnol yn y rhifyn hwn o Gylchlythyr Iechyd Cymru er mwyn parhau i gyflawni Cynllun Gwên yn effeithiol. Caiff y camau gweithredu eu nodi yn adrannau 2 i 6 gan gynnwys yr adrannau hynny: I grynhoi, bydd timau Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol a thimau Cynllun Gwên yn

- Cysylltu ag Uned Gwybodaeth Iechyd y Geg Cymru i adnabod lleoliadau targed.
- Canolbwyntio'n bennaf ar blant 0-5 oed, er y gall gweithgarwch brwsio dannedd mewn ysgolion barhau hyd at a chan gynnwys plant blwyddyn 2.
- Ymgysylltu'n rhagweithiol â thimau mewn deintyddfeydd cyffredinol i roi cymorth i'r deintyddfeydd ddarparu ymyrraedd seiliedig-ar-dystiolaeth ar gyfer plant.
- Cydweithio'n agos gydag Ymwelwyr Iechyd fel rhan o Raglen Plant Iach Cymru.
- Darparu hyfforddiant cyson a seiliedig-ar-dystiolaeth ar gyfer grwpiau dynodedig gan gynnwys darpar ymwelwyr iechyd.
- Dilyn cyngor a ddarperir yn y Cyfarwyddyd wedi'i ddiweddarau sy'n cynorthwyo timau i ddarparu'r rhaglen yn effeithlon ac yn ddiogel.
- Rhoi'r gorau i ddarparu selwyr rhychau fel rhan o'r rhaglen Cynllun Gwên.
- Rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaeth sgrinio fel rhan o'u gwaith Cynllun Gwên mewn ysgolion.
- Darparu data fel sy'n ofynnol i roi cymorth i fonitro'r rhaglen.
- Bydd Cyfarwyddwyr Clinigol Cynllun Gwên yn adolygu gallu timau Cynllun Gwên i ddarparu'r rhaglen â ffocws newydd.

## **1. Tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg i ategu'r achos dros ailbennu ffocws Cynllun Gwên**

Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg sy'n ategu'r achos dros ailbennu ffocws Cynllun Gwên er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn dal i gyflawni'r amcan ar gyfer y plant hynny sy'n wynebu'r risg mwyaf o bydredd dannedd. Mae'r dystiolaeth hon yn cynnwys:

### **1.1 Epidemioleg ac ymchwil**

#### **(i) Arolwg Epidemioleg Ddeintyddol o blant 3 blwydd oed**

Yn 2015 cyhoeddodd Prifysgol Caerdydd ganlyniadau'r arolwg epidemioleg ddeintyddol cyntaf o blant 3 blwydd oed yng Nghymru (2013-14).

Roedd yr arolwg yn dangos bod gan 14.5% o blant 3 blwydd oed o leiaf un dant yr oedd pydredd dannedd yn effeithio arno. Roedd cysylltiadau amlwg ag amddifadedd cymdeithasol gan fod dros 20% o blant 3 blwydd oed yn yr ardaloedd mwyaf amddifadus wedi cael profiad o bydredd dannedd.

Yn bwysicach byth, roedd gan y plant 3 blwydd oed yr oedd pydredd dannedd yn effeithio ar o leiaf un o'u dannedd bydredd mewn tua 3 dant. Mae cymharu data o'r arolwg hwn o blant 3 blwydd oed gyda data o arolygon epidemioleg ddeintyddol diweddar o blant 5 mlwydd oed yng Nghymru wedi dangos bod

llawer o'r pydredd dannedd sy'n bresennol pan fo plant yn 5 oed eisoes wedi datblygu erbyn eu bod yn 3 oed mewn rhai ardaloedd.

Mae'r canlyniadau hyn yn dangos bod angen mwy o ffocws ar y plant lleiaf un.

## (ii) Canlyniadau'r treial sêl ynteu farnais

*Y Treial Sêl ynteu Farnais?: Hap-dreial wedi'i reoli i fesur cost ac effeithiolrwydd cymharol selwyr rhychau a farnais fflworid o ran atal pydredd dannedd.*

Fe arweiniodd Prifysgol Caerdydd astudiaeth gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd o effeithiolrwydd cymharol selio rhychau neu farnais fflworid fel dull o atal pydredd dannedd mewn rhaglen a ariannwyd â chyllid cyhoeddus ac a gyflawnwyd gyda phoblogaeth. Cymerodd y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ran yn yr ymchwil.

Er bod selwyr rhychau'n ymyrraeth ataliol sy'n glinigol effeithiol yng nghynllun gofal claf unigol, mae'r canlyniadau'n dangos bod tystiolaeth erbyn hyn bod ei gost-effeithiolrwydd mewn rhaglen iechyd cyhoeddus ar gyfer poblogaeth yn cynnig llai o adenillion ar fuddsoddiad.

Felly ni fydd selwyr rhychau fel y cyfryw yn cael eu cynnwys mwyach yn y rhaglen Cynllun Gwên. Ni fyddant yn cael eu cynnig fel darpariaeth ar wahân gan y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol mewn ysgolion ychwaith. Bydd yr adnoddau a'r amser a ryddheir yn cael ei hailgyfeirio er mwyn ehangu gwaith atal ym maes gofal sylfaenol, brwsio beunyddiol a rhaglenni rhoi farnais fflworid yn y blynyddoedd cynnar.

## (iii) Lift the Lip

Mae'r rhaglen "Lift the Lip" wedi bod yn cael ei defnyddio yn Awstralia a Seland Newydd ers 2009. Fe'i defnyddir yn bennaf gan nyrsys iechyd plant sy'n cefnogi rhieni babanod a phlant bach iawn. Mae nodau'r rhaglen yn cynnwys:

- annog rhieni i archwilio dannedd eu plant yn rheolaidd i chwilio am arwyddion o bydredd dannedd a dangos sut i wneud hyn;
- rhoi cyngor ynghylch iechyd y geg i unigolion ac amlygu risg unigol pydredd dannedd;
- hyrwyddo'r arfer o fynd at y deintydd o oedran cynnar.

Mae'r rhaglen wedi cael derbyniad da ar y cyfan yn Awstralia a Seland Newydd, a cheir rhai canlyniadau calonogol o ran potensial y rhaglen i gyrraedd ei nodau. Mae Ymgynghorydd Iechyd Deintyddol Cyhoeddus yn Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymchwilio iddi gyda golwg ar brofi elfennau o'r rhaglen yng Nghymru.

## 1.2 Profiad o gyflawni'r rhaglen ac adborth

(i) Addysg Iechyd y Geg

Mae tystiolaeth yn dangos bod addysg iechyd y geg yn effeithiol ar sail personol fel rhan o gyswllt â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ac ar y cyd â rhoi fflworid.

Fodd bynnag, mae'r sail dystiolaeth i ddarparu addysg iechyd y geg mewn rhaglen boblogaeth wedi dod yn fwy eglur dros oes Cynllun Gwên. Mae'n amlwg bellach nad yw addysg iechyd y geg fel gweithgaredd ar ei ben ei hun yn yr ystafell ddsbarth yn gwella iechyd deintyddol y boblogaeth.

Mae'n rhaid i addysg iechyd y geg ar gyfer plant mewn ystafell ddsbarth fod yn gysylltiedig â rhoi fflworid (naill ai trwy frwsio dannedd neu roi farnais fflworid) a dim ond wrth gyflwyno'r elfennau hyn o'r rhaglen Cynllun Gwên i ddsbarth y bydd yr elfen addysg yn cael ei chynnwys.

(ii) Ymwneud gan dimau mewn Deintyddfeydd Cyffredinol

Hyd yma, mae Cynllun Gwên wedi bod yn cael ei gyflawni gan dimau sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol. Mae timau deintyddol sy'n gweithio mewn deintyddfeydd cyffredinol wedi bod yn cael eu hysbysu am y rhaglen, ond hyd yma nid ydynt wedi ymwneud rhyw lawer ac nid ydynt wedi bod wrthi'n weithredol yn cefnogi'r broses o ddarparu'r rhaglen ar gyfer plant sy'n mynychu'r practis. Yng Nghymru mae'r mwyafrif o blant yn mynychu deintyddfa gyffredinol. Yn y 24 mis hyd at fis Mawrth 2016, cafodd 1.7 miliwn o gleifion (54.9% o'r boblogaeth) eu gweld gan ddeintydd teulu. Roedd hyn yn cynnwys 65% o'r plant (cleifion a oedd dan 18 ar y dyddiad y cawsant eu derbyn ar gyfer triniaeth). Yn y cyfnod rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016 cafodd cyfanswm o 285,858 Cwrs o Driniaeth eu darparu ar gyfer plant (nid yw hyn yn cynnwys plant a gafodd eu gweld gan y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol yng Nghymru).

Yn y dyfodol bydd timau Cynllun Gwên yn gweithio gyda deintyddion teulu a'u timau, yn eu huwchsgilio i ddarparu cyngor ac ymyrraeth ataliol seiliedig-ar-dystiolaeth ar gyfer plant; gan eu cefnogi ag adnoddau fel y bo'n briodol ar gyfer cleifion yn y blynyddoedd cynnar sy'n wynebu risg. Bydd yr adnoddau hyn yn cynnwys brwshys dannedd a phast dannedd fflworid. Hefyd, bydd yr Ymgynghorydd Iechyd Deintyddol Cyhoeddus a Deoniaeth Cymru – Addysg Ddeintyddol Ôl-raddedig yn gweithio gyda thimau Cynllun Gwên i ddatblygu adnoddau hyfforddiant ac addysg i gefnogi timau mewn deintyddfeydd. Bydd y rhain yn cael eu profi gan dimau mewn deintyddfeydd ac yn cael eu mireinio i sicrhau eu bod yn ddefnyddiol ac yn effeithiol.

(iii) Profiad proffesiynol

Mae gan y proffesiynolion deintyddol sy'n darparu Cynllun Gwên brofiad ymarferol helaeth o ddarparu rhaglen ataliol mewn lleoliadau cymunedol sydd wedi helpu i drefnu a goleuo'r rhaglen dros yr 8 mlynedd ddiwethaf. Maent wedi amlygu'r angen am ddarpariaeth gyson ledled Cymru a gwerth dull "Unwaith i Gymru" i danategu'r ffocws newydd.

### 1.3 Cysoni ymhellach â blaenoriaethau a pholisi Llywodraeth Cymru

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru *Symud Cymru Ymlaen 2016-21* yn cydnabod bod yn rhaid wrth ffyrdd newydd o weithio er mwyn ymateb i heriau'r pum mlynedd nesaf. Mae'n cydnabod bod gwella iechyd a llesiant yn tanategu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru.

Bydd gwella iechyd y geg a gwasanaethau deintyddol ataliol yn cyfrannu at bolisi ehangach: yn y 1000 diwrnod cyntaf ym mywyd plentyn; i wella parodrwydd plant bach ar gyfer yr ysgol a'u presenoldeb yn yr ysgol; i gynyddu cyflogadwyedd oedolion ifainc; llesiant; newid cadarnhaol mewn ymddygiad; a hylendid a maethiad.

#### (i) Y Rhaglen Plant Iach Cymru – a ffocws ar y 1000 diwrnod cyntaf

Ceir tystiolaeth gyson i awgrymu bod buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar yn gwella iechyd, datblygiad cymdeithasol a datblygiad addysgol a chanlyniadau hirdymor yn sylweddol.

Mae cyflawni'r Rhaglen Plant Iach Cymru yn gyfle i Ymwelwyr Iechyd (yn rhai generig a Dechrau'n Deg) a thimau deintyddol gofal sylfaenol gydweithio'n agosach, i gryfhau eu cysylltiadau ymhellach a meithrin dull cyson ledled Cymru. Mae hyn yn gyson â pholisi Llywodraeth Cymru ac yn ymateb i dystiolaeth am iechyd deintyddol plant 3 blwydd oed:

<http://gov.wales/topics/health/publications/health/reports/healthy-child/?lang=cy>

Fel rhan o'r Rhaglen Plant Iach Cymru, bydd yr holl blant yng Nghymru'n cael cynnig ymweliadau strwythuredig gan ymwelydd iechyd sy'n rhoi cyfleoedd delfrydol i drafod diddyfnu, maethiad, brwsio dannedd a mynd at y deintydd. Bydd Ymwelwyr Iechyd hefyd yn annog yr holl blant i fynychu deintyddfa erbyn eu bod yn 1, ac yn edrych ar ddannedd y plentyn fel rhan o "Lift the Lip". Mae Ymwelwyr Iechyd yn amcanu at gofnodi eu canfyddiadau, a chysylltu fel y bo angen gyda thimau Cynllun Gwên i gefnogi mynediad at ofal deintyddol ar gyfer plant bach.

## 2. Elfennau ymarferol o ailbennu ffocws Cynllun Gwên

#### (i) Targedu

Rydym yn disgwyl i Wasanaethau Deintyddol Cymunedol gysylltu ag Uned Gwybodaeth Iechyd y Geg Cymru a fydd yn adnabod lleoliadau mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ac yn goleuo'r broses o gyflawni rhaglen wedi'i thargedu. Y targedau allweddol fydd lleoliadau mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol, ond yn arbennig y cwintelau mwyaf amddifadus, ail fwyaf amddifadus a thrydydd mwyaf amddifadus. Mae plant â phydredd dannedd i'w cael mewn grwpiau llai amddifadus ond mae'r rhain yn fwy tebygol o gael eu hadnabod gan ddeintyddion teulu.

Mae llawer o blant ag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn mynychu meithrinfeydd ac ysgolion prif ffrwd a byddant yn gallu cael budd o gael eu cynnwys yn y rhaglen Cynllun Gwên.

Hefyd gellir cynnig y rhaglen Cynllun Gwên i blant 0-5 oed sy'n mynychu meithrinfeydd ac ysgolion sy'n darparu'n benodol ar gyfer plant ag AAA *ni waeth beth fo'r dosbarthiad ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru sy'n adnabod amddifadedd cymdeithasol.*

Bydd Ymgynghorydd Iechyd Deintyddol Cyhoeddus arweiniol Cynllun Gwên yn rhoi eglurhad os oes angen.

Gall plant hŷn ag anghenion addysgol arbennig gael eu cefnogi gan wasanaethau hybu iechyd y geg y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol fel rhan o strategaeth iechyd y geg y bwrdd iechyd yn hytrach na'r rhaglen Cynllun Gwên.

#### (ii) Ffocws ar blant 0-5 oed

Rydym yn disgwyl i dimau Cynllun Gwên ganolbwyntio'r ddarpariaeth yn bennaf ar blant 0-5 oed. Bydd camau gweithredu allweddol yn cynnwys:

- Parhau i weithio gyda meithrinfeydd Dechrau'n Deg a lleoliadau cyn-ysgol eraill a adnabuwyd fel safleoedd a dargedir i ddarparu rhaglen brwsio dannedd ar gyfer plant 0-3 oed;
- Datblygu dull cyson o weithio gydag ymwelwyr iechyd i gysoni â Rhaglen Plant Iach Cymru (a ategir gan gyngor Iechyd Deintyddol Cyhoeddus arbenigol);
- Datblygu adnoddau hyfforddi Cymru gyfan ar gyfer darpar broffesiynolion iechyd a gofal cymdeithasol (a ategir gan gyngor Iechyd Deintyddol Cyhoeddus arbenigol);
- Parhau i ddarparu rhaglen brwsio dannedd â phast dannedd fflworid ar gyfer plant ym meithrinfeydd ac ysgolion awdurdodau lleol – y prif ffocws yw plant hyd at 6 oed;
- Darparu rhaglen farnais fflworid ar gyfer plant 3-5 oed ym meithrinfeydd ac ysgolion awdurdodau lleol;
- Hyfforddiant iechyd y geg ar gyfer staff addysgu/goruchwyllo ar ddechrau'r rhaglen ac i gynnal y broses o ddarparu'r rhaglen.

#### (iii) Ymgysylltu â thimau mewn deintyddfeydd cyffredinol

Mae'n rhaid wrth ymgysylltu gweithredol rhwng timau Cynllun Gwên a thimau mewn deintyddfeydd cyffredinol – yn arbennig er mwyn adnabod a chyrraedd plant â phydredd dannedd mewn cymunedau llai amddifadus.

Bydd timau mewn deintyddfeydd cyffredinol yn:

- Annog pob plentyn yng Nghymru i gael brwsio'i ddannedd â phast dannedd fflworid teulu y peth diwethaf cyn mynd i'r gwely, ac ar o leiaf un achlysur arall yn ystod y dydd;



- Rhoi gofal ataliol seiliedig-ar-dystiolaeth (gan gynnwys farnais fflworid) i blant, a rhoi cyngor ataliol seiliedig-ar-dystiolaeth i'w rhieni/pobl â chyfrifoldeb rhiant, a'r cyngor hwnnw'n cydymffurfio â '*Delivering Better Oral Health: an evidence-based toolkit for prevention*' a'i fod yn briodol ar gyfer lefelau llythrennedd iechyd;
- Adnabod plant sy'n wynebu risg o bydredd dannedd neu sy'n methu â mynychu'r deintydd dro ar ôl tro, a chysylltu â phroffesiynolion iechyd a gofal eraill;
- Sefydlu patrwm o fynd at y deintydd yn rheolaidd ar gyfer plant.

Gan weithio gyda grŵp cynrychiolaidd o aelodau o dimau Cynllun Gwên, bydd yr Ymgynghorydd Iechyd Deintyddol Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn arwain y gwaith o ddatblygu a phrofi dull Cymru gyfan o ymgysylltu â thimau mewn deintyddfeydd cyffredinol. Bydd hyn yn hwyluso cydweithio clòs rhwng timau Cynllun Gwên a deintyddfeydd yn ardal eu bwrdd iechyd.

Gall timau Cynllun Gwên ddarparu adnoddau ar gyfer deintyddfeydd, megis brwshys dannedd, past dannedd, farnais fflworid a gwybodaeth ysgrifenedig i rieni. Mae'r rhain yn bennaf ar gyfer plant â phydredd dannedd neu blant sy'n wynebu risg o ddatblygu pydredd dannedd, ac ar gyfer y rhai sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol. Bydd yr adnoddau hyn yn cael eu darparu'n unol â meini prawf a nodir yn y *Cyfarwyddiadau*, ac yn cael eu harchwilio. (Mae'r *Cyfarwyddiadau* yn bennaf ar gyfer timau Cynllun Gwên, ac yn rhoi cymorth i ddarparu Cynllun Gwên yn ddiogel ac yn effeithiol. Maent ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol:

[http://www.designedtosmile.co.uk/fluoride\\_varnish\\_new2\\_cym.html](http://www.designedtosmile.co.uk/fluoride_varnish_new2_cym.html))

Rydym am weld cefnogaeth ac anogaeth gan fyrdau iechyd i'r ffordd newydd hon o weithio. Dylai contractau GIG byrdau iechyd gyda deintyddion teulu adlewyrchu'r angen i roi mynediad agored a gofal i blant bach yn unol ag egwyddorion *Symud ymlaen i wella iechyd y geg a gwasanaethau deintyddol yng Nghymru*:

<http://gov.wales/topics/health/professionals/dental/?lang=cy>

#### (iv) Gweithio gydag Ymwelwyr Iechyd

Dylai timau Cynllun Gwên gynnig mewnbwn i gyrsiau hyfforddi ar gyfer darpar Ymwelwyr Iechyd, a hyfforddiant ôl-raddedig fel y bo'n briodol.

Fel rhan o'r Rhaglen Plant Iach Cymru, bydd Ymwelwyr Iechyd yn rhoi anogaeth gref i rieni plant sydd â phydredd dannedd, neu sy'n wynebu risg mawr o gael pydredd dannedd, fynd â'u plentyn i weld deintydd teulu ar fyrder. Dylai'r holl rieni gael eu hannog i fynd â'u plant i gael gofal deintyddol erbyn eu bod yn 1 oed.

Gall plant sydd mewn poen neu sydd ag arwyddion o haint o ganlyniad i bydredd dannedd ac nad ydynt yn gallu cael mynediad at ddeintydd teulu, neu y mae'n annhebygol iawn y bydd rhywun yn mynd â hwy i ddeintyddfa, gael eu hatgyfeirio gan yr Ymwelydd Iechyd at y tîm Cynllun Gwên i gael gofal yn unol â *WHC/2016/005: Rôl Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol a Gwasanaethau i Bobl Agored i Niwed*. Pan fo'n briodol, bydd y cohort yma o blant yn cael eu trosglwyddo'n weithredol at y Gwasanaethau Deintyddol

Cyffredinol yn unol â WHC/2016/005:

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/160202whc005en.pdf>

Mae'r math yma o ofal yn debygol o gael ei roi trwy fynediad uniongyrchol at hylenydd neu therapydd deintyddol a chyngor / rhoi farnais fflworid wedi hynny gan nyrs ddeintyddol a hyfforddwyd yn briodol.

Gall Cynllun Gwên ddarparu pecynnau ar gyfer ymwelwyr iechyd sy'n cynnwys brws dannedd a phast dannedd fflworid i'w rhoi i deuluoedd sy'n profi anfantais gymdeithasol. Dylid archwilio'r ddarpariaeth hon.

### **3. Rhyddhau gallu ac adnoddau**

#### **(i) Rhaglen Selio Rychau**

Darperir selwyr rychau ar gyfer plant sy'n 6 oed a throsodd. Er bod hyn yn elfen werthfawr o ofal am gleifion unigol, nid yw'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn cadarnhau bod yr elfen hon yn gost-effeithiol nac yn rhoi adenillion da ar fuddsoddiad mewn rhaglen iechyd cyhoeddus ar gyfer y boblogaeth megis Cynllun Gwên.

Dylai plant sy'n cael mynediad at ofal mewn deintyddfeydd cyffredinol a chlinigau Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol gael yr ymyrraeth hon o fewn llwybrau clinigol ataliol yn unol â'r canllawiau yn y fersiwn gyfredol o *Delivering Better Oral Health*.

Bydd terfynu'r rhaglen selio rychau mewn ysgolion yn rhyddhau gallu yn nhimau clinigol y rhaglen Cynllun Gwên (gan gynnwys therapyddion a hylenydd deintyddol). Gall eu sgiliau a'u profiad gael eu hadleoli yn y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol, gan gynnwys gofalu am blant a gaiff eu hatgyfeirio fel rhan o'r Rhaglen Plant Iach Cymru.

#### **(ii) Darpariaeth ar gyfer plant 6 oed a throsodd**

Bydd Cynllun Gwên yn canolbwyntio'n bennaf ar blant 0-5 oed. Ar gyfer yr elfennau o'r rhaglen Cynllun Gwên a ddarperir mewn ysgolion, ni fydd adnoddau Cynllun Gwên yn cael eu defnyddio y tu hwnt i flwyddyn ysgol 2. Bydd Ymgynghorydd Iechyd Deintyddol Cyhoeddus arweiniol Cynllun Gwên yn rhoi eglurhad os oes angen.

Bydd y mewnbwn llai ar gyfer plant yn y grŵp oedran hŷn yn rhyddhau amser timau Cynllun Gwên i ymgysylltu â thimau mewn deintyddfeydd cyffredinol a phroffesiynolion iechyd a gofal cymdeithasol eraill.

#### **(iii) Sgrinio mewn ysgolion**

Yn 2014, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r *Protocol Cymru Gyfan ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol ar sgrinio/archwilio deintyddol mewn ysgolion*:

<http://gov.wales/topics/health/professionals/dental/publication/information/school-dental-screening/?lang=cy>

Ni fydd unrhyw le ar gyfer sgrinio mewn ysgolion fel rhan o'r rhaglen Cynllun Gwên a bydd y protocol yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu hyn.

#### 4. Darpariaeth Effeithiol ac Effeithlon

Mae'r rhaglen Cynllun Gwên yn cael ei darparu i raddau helaeth gan broffesiynolion gofal deintyddol sy'n gweithio o fewn eu cwmpas ymarfer ac yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus. Darperir arweinyddiaeth glinigol leol gan Gyfarwyddwr Clinigol y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol (neu ddeintydd dynodedig arall) a gefnogir gan Ymgynghorwyr Iechyd Deintyddol Cyhoeddus. Rydym yn disgwyl i'r patrwm darparu hwn barhau ac y bydd Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol yn adolygu rolau staff er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio tuag at ddefnyddio'u cwmpas ymarfer llawn.

Bydd darpariaeth effeithiol ac effeithlon yn cynnwys:

- adolygiad o'r sail dystiolaeth a'r *Cyfarwyddiadau* fel eu bod yn gyson â ffocws newydd y rhaglen Cynllun Gwên;
- adolygiad o'r wefan Cynllun Gwên fel ei bod yn gyson â'r ffocws newydd ac er mwyn sicrhau ei bod yn berthnasol i dimau mewn deintyddfeydd cyffredinol;
- adolygiad o'r holl adnoddau sydd wedi'u hargraffu ar gyfer Cynllun Gwên i sicrhau eu bod yn dal i fod yn addas ar gyfer y diben;
- dysgu o raglenni perthnasol mewn rhannau eraill o'r DU ac yn fyd-eang.

Hefyd:

- bydd pecynnau cartref yn cael eu darparu ar gyfer y canlynol yn unig:
  - plant sy'n cyfranogi mewn rhaglenni brwsio dannedd neu farnais fflworid Cynllun Gwên mewn lleoliadau cyn-ysgol ac ysgolion;
  - plant a fydd yn eu cael yn unigol gan broffesiynolyn gofal iechyd;
- Bydd timau Cynllun Gwên yn ymgysylltu â phroffesiynolion iechyd, addysgu a gofal cymdeithasol a'r trydydd sector trwy ddigwyddiadau megis:
  - hyfforddiant i athrawon,
  - cyrsiau myfyrwyr,
  - digwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus,
  - cynadleddau,
  - cyfarfodydd llywodraethwyr ysgol;
- Erthyglau ar gyfer gwefannau a chyhoeddiadau;
- Yn y gorffennol mae timau Cynllun Gwên wedi cefnogi digwyddiadau cyhoeddus megis Mis Cenedlaethol Gwenu a digwyddiadau mewn ysgolion. Mae'r "brand" Cynllun Gwên bellach yn adnabyddus iawn ac rydym yn credu mai ychydig iawn o werth sydd i'r math yma o weithgarwch. Felly nid ydym yn disgwyl i dimau Cynllun Gwên roi mewnbyn i ddigwyddiadau cyhoeddus. Fodd bynnag, gall timau Cynllun Gwên gefnogi Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol os oes ganddynt y gallu a dim ond fel rhan o stondin bwrdd iechyd.

Mae'n rhaid i unrhyw adnoddau a gallu a gaiff eu ryddhau o ganlyniad i'r newid i'r rhaglen gael eu defnyddio'n effeithiol. Bydd y *Cyfarwyddiadau* yn rhoi eglurhad ychwanegol, ond gall hyn gynnwys:

- Darparu brwshys dannedd/past dannedd fflworid a gwybodaeth wedi'i hargraffu ar gyfer Ymwelwyr Iechyd er mwyn iddynt hwy eu darparu ar gyfer plant yn eu gofal sy'n profi anfantais gymdeithasol;
- Darparu brwshys dannedd/past dannedd/farnais fflworid a gwybodaeth wedi'i hargraffu ar gyfer timau mewn deintyddfeydd cyffredinol sy'n ymgysylltu'n weithredol â thimau Cynllun Gwên Lleol. Bydd Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol yn cadw cofnod o'r adnoddau a ddarparwyd. Bydd data a ddarperir gan Is-adran Gwasanaethau Deintyddol Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG yn cael ei ddefnyddio i adolygu'r drefn o roi farnais fflworid i blant sy'n mynychu'r ddeintyddfa;
- Cyflogi aelodau o'r tîm deintyddol (yn arbennig therapyddion a/neu hylenywyr) i roi gofal mewn deintyddfeydd (sefydlog neu symudol) i blant a atgyfeiriwyd at y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol gan Ymwelwyr Iechyd fel rhan o'r Rhaglen Plant Iach Cymru.
- Rhoi gofal a chngor ataliol dilynol i blant (0-5 oed yn bennaf) sydd wedi cael tynnu dannedd pydredig dan Anaesthetig Cyffredinol.

## 5. Gweithlu ac Arweinyddiaeth

Mae Cynllun Gwên wedi datblygu arweinyddiaeth gadarn ar lefel timau, lleol a chenedlaethol. Rydym yn disgwyl i'r rhaglen Cynllun Gwên fod yn eitem sy'n rhan annatod o'r agenda ar gyfer grwpiau lleol perthnasol ac yn cydnabod y bydd byrddau iechyd o bosibl yn dymuno cadw grŵp llywio lleol ar gyfer Cynllun Gwên. Bydd Cyfarwyddwyr Clinigol Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol yn parhau i fod ag atebolrwydd cyffredinol am ddarpariaeth leol, a gallant geisio cyngor gan yr Ymgynghorydd Iechyd Deintyddol Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn ôl y gofyn. Bydd Cyfarwyddwyr Clinigol yn deall y sail dystiolaeth a'r egwyddorion sy'n tanategu'r rhaglen iechyd cyhoeddus hon.

Bydd angen i fyrddau iechyd a Chyfarwyddwyr Clinigol Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol adolygu gallu Cynllun Gwên i sicrhau bod staff yn gallu darparu elfennau newydd o'r rhaglen. Mae gweithio gyda thimau mewn deintyddfeydd cyffredinol ac Ymwelwyr Iechyd fel rhan o'r Rhaglen Plant Iach Cymru yn golygu bod angen llai o ffocws ar weithio yn ystod y tymor.

Byddem yn disgwyl gweld byrddau iechyd yn ymgysylltu'n lleol â chlystyrau gofal sylfaenol fel rhan o'r agenda Cynllun Gwên ehangach i roi sylw i faethiad plant.

Mae'r ffocws newydd yn gyfle i adolygu arweinyddiaeth ar y lefel genedlaethol.

Bydd Grŵp Llywio Cenedlaethol yn cael ei sefydlu er mwyn:

- Rhoi arweinyddiaeth;

- Goruchwylio'r rhaglen a rhoi arweiniad;
- Adolygu'r sail dystiolaeth;
- Arwain yr adolygiad o'r *Cyfarwyddiadau*, yr adnoddau a'r wefan;
- Sicrhau hyfforddiant cyson ar gyfer timau Cynllun Gwên ledled Cymru;
- Adolygu swydd-ddisgrifiadau enghreifftiol a theitlau swyddi personél Cynllun Gwên yn unol â gwaith diweddar a wnaed ar rolau a theitlau swyddi deintyddion gan Atebion Gweithlu Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru;
- Sganio'r gorwel a thrafod cynlluniau ar gyfer camau i wella iechyd y geg ymhlith grwpiau oedran eraill a grwpiau eraill sy'n agored i niwed yn y boblogaeth.

Bydd y grŵp yn cael ei Gadeirio a'i drefnu gan Ymgynghorydd Iechyd Deintyddol Cyhoeddus arweiniol y rhaglen Cynllun Gwên, Iechyd Cyhoeddus Cymru a bydd yr aelodaeth graidd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r canlynol: Llywodraeth Cymru, Uned Gwybodaeth Iechyd y Geg Cymru; y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol; rheolwyr gweithredol Cynllun Gwên; a'r Rhaglen Plant Iach Cymru. Bydd proffesiynolion Iechyd ac Addysgu eraill yn cael eu gwahodd fel y bo'n briodol. Bydd yr holl ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion yn cael eu gwneud yn hysbys yn lleol trwy Datix ond byddant hefyd yn cael eu gwneud yn hysbys i Gadeirydd y Grŵp Llywio Cenedlaethol.

Bydd Fforwm Cenedlaethol Cynllun Gwên yn troi'n ddigwyddiad dysgu blynyddol i rannu arfer gorau, profiad a dysgu, cyflawniadau a heriau. Bydd cynrychiolwyr o'r proffesiynau Iechyd ac addysgu ehangach yn cael eu gwahodd. Bydd y digwyddiad dysgu'n cael ei drefnu gan dimau Cynllun Gwên, a bydd Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol byrddau Iechyd yn cymryd tro i drefnu'r digwyddiad (gan gydweithio gyda byrddau Iechyd cyfagos o bosibl).

Bydd y grŵp rheolwyr gweithredol Cynllun Gwên yn parhau i gwrdd o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Bydd cyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan yr Arbenigwr mewn Iechyd Cyhoeddus, Uned Gwybodaeth Iechyd y Geg Cymru, gyda mewnbwn fel sy'n briodol gan yr Ymgynghorydd Iechyd Deintyddol Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Dirprwy Brif Swyddog Deintyddol ac eraill yn cael eu gwahodd fel y bo angen. Prif rôl y grŵp fydd trafod materion gweithredol, monitro gweithgarwch a gofynion o ran datblygu timau, yn ogystal â chydweithio ar waith prosiect cenedlaethol i gefnogi'r ffocws newydd.

Mae'n ofynnol bod aelodau o dimau Cynllun Gwên yn cael hyfforddiant priodol (gan gynnwys Datblygiad Proffesiynol Parhaus a all gael ei ddilysu gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol) i sicrhau eu bod yn deall atal seiliedig-ar-dystiolaeth, maethiad, technegau addysgu a chyfathrebu ac egwyddorion Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol wrth i dimau Cynllun Gwên ymestyn eu gwaith i gynnwys timau mewn deintyddfeydd cyffredinol. Mae ystod o sefydliadau mewn sefyllfa dda i ddarparu hyfforddiant ac mae'r rhain yn cynnwys Deoniaeth Cymru – Addysg Ddeintyddol Ôl-raddedig, Iechyd Cyhoeddus Cymru, sefydliadau proffesiynol ac arbenigwyr sydd ar gael yn lleol. Bydd hyfforddiant lleol yn cael ei drefnu gan dimau

Cynllun Gwên a'u Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol, a bydd yn gyson â chanllawiau gan y Grŵp Llywio Cenedlaethol.

Mae ystod o rolau, teitlau swyddi a swydd-ddisgrifiadau Cynllun Gwên wedi datblygu ers cyflwyno Cynllun Gwên gyntaf. Bydd Cyfarwyddwyr Clinigol Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol yn adolygu cyfansoddiad eu timau Cynllun Gwên i'w galluogi i ymateb i ofynion newidiol. Byddant yn cael eu cefnogi yn hyn o beth trwy ddefnyddio gwybodaeth a ddarperir gan y Grŵp Llywio Cenedlaethol pan fydd ar gael.

## **6. Monitro ac Adrodd**

Rydym am leihau'r baich o ran data a gesglir er mwyn monitro Cynllun Gwên gan sicrhau ar yr un pryd bod gan Uned Gwybodaeth Iechyd y Geg Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a thimau'r byrddau Iechyd ddigon o ddata i werthuso ac adrodd ar effaith.

Bydd y Grŵp Llywio Cenedlaethol yn arwain adolygiad o drefniadau casglu data i gytuno ar fesurau cadarn a datblygu'r mesurau hynny a nodi pa elfennau o'r data a gesglir ddylai gael eu cadw ac unrhyw fylchau yn y mesuriadau y mae angen eu hystyried a'u llenwi.

## **7. Dyrannu Adnoddau.**

Roedd y cyllid ar gyfer y rhaglen Cynllun Gwên yn 2017-18 wedi'i gynnwys yn Nyraniadau Refeniw'r Byrddau Iechyd a gyhoeddwyd ar 20 Rhagfyr 2016.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon wedi cytuno y bydd cyllid a ddyrennir ar gyfer *Cynllun Gwên* yn dal i fod wedi'i glustnodi a'i fod yn benodol ar gyfer cyflawni'r rhaglen. Mae'n rhaid i wariant a ysgwyddir fod yn uniongyrchol gysylltiedig â datblygu a chyflawni'r rhaglen.

## **Atodiad**

### **Cefndir Cynllun Gwên a chyflawni'r rhaglen cyn y rhifyn hwn o Gylchlythyr Iechyd Cymru**

Cylchlythyr Iechyd Cymru (2008) 008 (14 Mawrth 2008) : Designed to Smile – A National Child Oral Health Improvement Programme. Promoting Better Oral Health and Delivering a Fluoride Supplementation Programme.

EH/ML/032/09: Ehangu Cynllun Gwên – Rhaglen Wella Genedlaethol ar Iechyd y Geg.

Mae'r rhaglen Cynllun Gwên wedi bod yn cael ei chyflawni ledled Cymru ers 2009, yn dilyn treialu ar raddfa fawr yn 2008 gan Wasanaethau Deintyddol Cymunedol yng Ngogledd Cymru a Chaerdydd – y “cynlluniau peilot mawr”. Mae timau Cynllun Gwên y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol yn darparu'r rhaglen mewn lleoliadau a dargedir gan gynnwys Meithrinfeydd Dechrau'n Deg, dosbarthiadau meithrin / derbyn a rhai ysgolion cynradd. Cyfarwyddwyr Clinigol Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol sy'n atebol am gyflawni'r rhaglen ac fe'i tanategir gan arbenigedd academyddion, Ymgynghorwyr ac Arbenigwyr Iechyd Deintyddol Cyhoeddus.

Mae'r rhaglen yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a'i phrif nod yw rhoi fflworid ar ddannedd plant. Cyflawnir hyn trwy weithgarwch beunyddiol mewn lleoliadau i frwsio dannedd gyda phast dannedd â chynnwys fflworid optimaidd a rhoi farnais fflworid. Mae'r rhaglen yn cynnwys y rhaglen Selwyr Rhychau blaenorol, ac addysg / gweithgarwch i hybu iechyd y geg ar gyfer grwpiau allweddol gan gynnwys plant sy'n cymryd rhan yn y rhaglen, eu hathrawon / cynorthwywyr dosbarth a rhieni / pobl â chyfrifoldeb rhiant. Mae timau Cynllun Gwên yn cydweithio'n agos gyda Phroffesiynolion Iechyd eraill gan gynnwys Ymwelwyr Iechyd, darpar Ymwelwyr Iechyd, dietegwyr cymunedol, a chyda Chynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru. Mae'r timau Cynllun Gwên yn sicrhau ansawdd y rhaglen gan ddefnyddio proses Cymru gyfan.

Mae gan fyrdau iechyd grwpiau llywio lleol i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei darparu'n effeithiol yn lleol, tra bo ffocws cenedlaethol yn cael ei ddarparu trwy Fforwm Cenedlaethol Cynllun Gwên blynyddol. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ac yn llywio'r rhaglen yn ganolog er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei chyflawni mewn modd cyson ac er mwyn cysoni'r rhaglen â thystiolaeth a pholisi sy'n dod i'r amlwg.

Mae gan y rhaglen wefan sydd wedi'i datblygu'n dda ac sy'n cynnwys adrannau ar gyfer y cyhoedd, rhieni, athrawon a phroffesiynolion deintyddol. Caiff y broses o gyflawni'r rhaglen ei chefnogi gan ystod o adnoddau gan gynnwys ffurflenni caniatâd, gwybodaeth i rieni a gwybodaeth broffesiynol.

O'r dechrau un mae'r rhaglen Cynllun Gwên wedi bod yn cael ei monitro gan Uned Gwybodaeth Iechyd y Geg Cymru, ac yn cael ei gwerthuso gan Uned Iechyd Deintyddol Cyhoeddus Ysgol Ddeintyddiaeth Prifysgol Caerdydd mewn cyfres o brosiectau ymchwil. Mae'n anrffod y bydd rhaglen genedlaethol yn profi rhai problemau o ran darparu ar gyfer pob lleoliad a

dargedir, ond mae gweithgarwch monitro wedi dangos bod y rhaglen yn cael ei darparu'n effeithlon, ac mae adroddiadau gwerthuso wedi nodi ei bod yn dderbyniol yn gyffredinol i rieni ac athrawon. Gellir gweld yr holl adroddiadau monitro a gwerthuso ar y wefan Cynllun Gwên.

Yng Nghymru, mae cyfres o astudiaethau epidemiolegol yn darparu gwybodaeth am iechyd deintyddol plant bach. Mae astudiaethau o blant 3, 5 a 12 oed wedi cael eu cyhoeddi ers dechrau'r rhaglen Cynllun Gwên. Gellir eu gweld trwy ddilyn y ddolen hon:

<http://www.cardiff.ac.uk/research/explore/research-units/welsh-oral-health-information-unit>

Ym mis Ebrill 2016 fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Iechyd Ceg Plant yng Nghymru – rhywbeth i godi gwên" a adroddodd fod gostyngiad o 12% wedi bod mewn lefelau pydredd dannedd ymhlith plant pum mlwydd oed yng Nghymru rhwng 2008 a 2015:

<http://gov.wales/docs/phhs/publications/160503smilecy.pdf>

Roedd yr adroddiad yn nodi fel a ganlyn: ***Hwn yw'r gwelliant mwyaf sylweddol a chyson o ran lefelau pydredd dannedd ymhlith plant yng Nghymru ers i gofnodion ddechrau. Mae'r gostyngiad o 12% yn cyd-fynd â chyflwyno'r rhaglen Cynllun Gwên, rhaglen genedlaethol i wella iechyd y geg a ddechreuodd yn 2009.***